# Dathliad o Gynllun Gwarcheidwaid Parc Rhanbarthol y Cymoedd

a ddarperir gan Groundwork Cymru

Parc Rhanbarthol y Cymoedd


Valleys Regional Park

Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

# Rhagair

Phil Lewis, Arweinydd Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Katy Stevenson, Prif Swyddog Gweithredol Groundwork Cymru





**Phil Lewis**

Arweinydd Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn falch o fod yn arwain rhaglen, a gyflenwir mewn partneriaeth â Groundwork Cymru, sy'n cael effaith mor gadarnhaol ar bobl, amgylchedd a bywyd gwyllt Cymoedd De Cymru. Drwy gysylltu unigolion â'u tirweddau lleol, a gweithio gyda'r rhwydwaith o Ganolfannau Darganfod, mae'r Cynllun Gwarcheidwaid yn creu cyfleoedd dysgu hanfodol ar gyfer hamdden a sgiliau ar draws y Cymoedd – gan baratoi cymunedau gyda gwybodaeth hanfodol am sut i ofalu am ein cynefinoedd a thirweddau naturiol cyfoethog, fel y gellir eu mwynhau am flynyddoedd i ddod.

Ers ei lansio yn 2021, rwyf wedi cael fy ysbrydoli'n barhaus gan yr effaith y mae sesiynau'r Cynllun Gwarcheidwaid wedi'i chael ar ein Pyrth Darganfod, yn ogystal ag ymrwymiad a brwdfrydedd y gwirfoddolwyr. O adfer pyllau dŵr i greu llwybrau a chadwraeth rhywogaethau, mae pob gwirfoddolwr wedi gwneud cyfraniad ystyrlon i ddyfodol Cymoedd De Cymru a'u bioamrywiaeth. Hoffwn felly bachu ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sy'n ymwneud â'r Cynllun Gwarcheidwaid a'u llongyfarch am ei wneud yn gymaint o lwyddiant.



**Katy Stevenson**

Prif Swyddog Gweithredol Groundwork Cymru

Mae'n bleser mawr gennyf ddathlu llwyddiannau Cynllun Gwarcheidwaid Parc Rhanbarthol y Cymoedd, a ddarperir gan Groundwork Cymru – menter wych sy'n helpu pobl o bob rhan o ôl troed Parc Rhanbarthol y Cymoedd i ymgysylltu â'r awyr agored. Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi helpu i gyflwyno rhaglen anhygoel i gefnogi pobl, planed a lle – wrth weithio yn unol â'n gweledigaeth o 'Newid Lleoedd, Newid Bywydau'.

Rydym wedi gweithio gyda phobl o bob oed ac o bob cefndir, yn eu cefnogi i ddatblygu sgiliau cadwraeth, eco-lythrennedd, hyder a llesiant wrth ofalu am ein tirwedd anhygoel, ymgymryd â gwaith i liniaru'r argyfwng hinsawdd a natur, a chael eu hachredu am y gwaith hwn drwy ein cynnig gan Agored Cymru. Mae clod i'r tîm llawn o staff a gymerodd ran, i'r partneriaid yn y Pyrth Darganfod ac o fewn cymunedau lleol – gan gynnwys ein holl bartneriaid cymunedol sydd wedi helpu i wneud hyn yn llwyddiant, i Lywodraeth Cymru, ac, wrth gwrs, i bartneriaeth ehangach Parc Rhanbarthol y Cymoedd.

Hoffwn longyfarch pob un o'r gwirfoddolwyr a buddiolwyr sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun, gan helpu i ofalu am y dirwedd anhygoel yma yng Nghymoedd De Cymru ar gyfer cenhedlaeth y presennol a chenedlaethau'r dyfodol.



**Mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn bartneriaeth o sefydliadau Cymreig, gan gynnwys cynghorau ac elusennau, sy'n gweithio gyda byd natur i helpu Cymoedd De Cymru i ffynnu – yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn economaidd.**



Mae ôl troed Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn ymestyn o Sir Gaerfyrddin i Flaenafon ac yn ffinio â Bannau Brycheiniog. Mae ganddi rwydwaith o ucheldiroedd, coetiroedd, gwarchodfeydd natur, parciau gwledig, afonydd, cronfeydd dŵr, camlesi, safleoedd treftadaeth ac atyniadau – i gyd yn gydgysylltiedig â threfi a phentrefi sy'n gartref i tua miliwn o bobl.

Gyda rhwydwaith o atyniadau lleol, safleoedd, a sefydliadau fel Pyrth Darganfod Parc Rhanbarthol y Cymoedd, ein cenhadaeth yw gwella ansawdd bywyd, rhagolygon economaidd, iechyd a llesiant yng Nghymoedd De Cymru. Cyflawnir hyn drwy gysylltu pobl â mannau gwyrdd cynyddol y rhanbarth – a thrwy hynny fynd i'r afael â'r argyfwng natur a hinsawdd wrth hybu ffyrdd egnïol o fyw.

Trwy gysylltu pobl â mentrau awyr agored, gweithgareddau a phrosiectau cymunedol, rydym yn gallu creu cyfleoedd dysgu hamdden sy'n seiliedig ar sgiliau ar draws y Cymoedd – gan ddenu mewnfuddsoddiad a'u gwneud yn lle deniadol i weithio, byw ac ymweld ag ef.





**Groundwork yw'r elusen gymunedol â'r galon werdd — sy'n ymroddedig i gefnogi cymdeithas o gymunedau cynaliadwy sy'n fywiog, iach a diogel; sy'n parchu'r amgylchedd lleol a byd-eang; a lle mae unigolion a busnesau yn ffynnu.**

Ers 1990, mae Groundwork Cymru wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid mewn cymunedau lle mae'r angen mwyaf, ledled Cymru, i ddarparu rhaglenni sydd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau a rhagolygon pobl.

Yn Groundwork Cymru, mae'r cyfan yn ymwneud ag adfywio yn ei ystyr llawnaf – defnyddio ymgysylltu amgylcheddol lleol i wireddu a rhyddhau potensial mewn unigolion a chymunedau, gweithio tuag at lesiant cenedlaethau'r dyfodol a Chymru fwy ffyniannus, a sicrhau ein bod yn gofalu am y dirwedd rydym yn dibynnu arni.





# Uchafbwyntiau'r **Cynllun Gwarcheidwaid**

## Cyfanswm y cyfranogwyr yn y Pyrth Darganfod:

**887**

## Cyfanswm oriau cyflwyno'r sesiynau:

**9,724**

(yn cynnwys holl weithgarwch Gwarcheidwaid am y ddwy flynedd)

## Cyfanswm y cyfranogwyr ar y rhaglen:

**1,430**

## Cyfanswm y tir wedi'i wella:

**399,497m²**

maint **56** o gaeau pêl-droed!

## Cyfanswm cynnydd mewn llesiant:

**78.5%**

(yn ôl cyfranogwyr y Pyrth Darganfod)

Mae ystadegau wedi'u cymryd o adroddiadau chwarterol Groundwork Cymru, sy'n cyfrif am gynllun peilot y Cynllun Gwarcheidwaid yn 2020 i waith a wnaed yn y Pyrth Darganfod, sesiynau Wellies in the Woods a darpariaeth rhaglen Big Bocs Bwyd tan fis Rhagfyr 2022.

# **Dewch i gwrdd â'n** Gwarcheidwaid gwirfoddol

**Heb os, mae Cynllun Gwarcheidwaid Parc Rhanbarthol y Cymoedd, a gyflenwir gan Groundwork Cymru, wedi cael effaith gadarnhaol ar fywydau'r rhai a gymerodd ran yn y sesiynau. Dyma beth oedd gan rai o'r Gwarcheidwaid i'w ddweud am eu profiadau…**

## Alan Redfern



**Ymunodd â'r Cynllun Gwarcheidwaid:** Medi 2022

**Porth Darganfod a fynychwyd:** Parc Gwledig Bryngarw.

**Cefndir:** Ymunodd Alan â'r cynllun ar ôl ymddeol o yrfa gorfforaethol oherwydd ei fod yn chwilio am her newydd.

**Hoff ran o'r Cynllun:** Mae Alan yn mwynhau bod yn rhan o dîm brwdfrydig a defnyddio ei sgiliau bywyd ar draws ystod o brosiectau. Mae hoff brosiectau Alan yn cynnwys adeiladu ffens 18 postyn i ailgyfeirio llwybr troed o erydiad afon ac ailadeiladu pont.

***"Blwyddyn ar ôl ymddeol, cefais fy hun mewn lle gwael – nid oeddwn yn fodlon o ran ymddeol ac roedd angen rhywbeth arall arnaf i roi fy amser a fy ymdrech iddo. Cefais wahoddiad i'm cyfarfod Cynllun Gwarcheidwaid cyntaf a chofrestrais ar gyfer fy sesiwn gyntaf. Ac mae'n rhaid i mi ddweud, dydw i ddim wedi edrych yn ôl."***

## Matthew Jenkins



**Ymunodd â'r Cynllun Gwarcheidwaid:** Gorffennaf 2022

**Porth Darganfod a fynychwyd:** Parc Gwledig Cwm Dâr.

**Cefndir:** Dechreuodd Matthew wirfoddoli gyda Groundwork Cymru a Chynllun Gwarcheidwaid Parc Rhanbarthol y Cymoedd i ennill sgiliau newydd a chynyddu ei hyder – gyda'r gobaith o sicrhau gyrfa werdd yn y dyfodol.

**Hoff ran o'r Cynllun:** Mae Matthew yn mwynhau gwneud ffrindiau o bob cefndir – pobl sydd â chyfoeth o wybodaeth a phrofiad y gall ddysgu oddi wrtho, na fyddai efallai wedi cwrdd â nhw fel arall.

***"Rwyf wedi bod â diddordeb gwirioneddol mewn natur, bywyd planhigion a thyfu bwydydd iach ers tro. Mae'r sesiynau ym Mharc Gwledig Cwm Dâr yn un o'r prif resymau pam fy mod i'n codi o'r gwely'n gynnar – mae'n lle gwych iawn i fod ac yn cael effaith gadarnhaol ar fy lles meddyliol a chorfforol."***

## Luke Garrood



**Ymunodd â'r Cynllun Gwarcheidwaid:** Mawrth 2022

**Porth Darganfod a fynychwyd:** Parc Gwledig Cwm Dâr.

**Cefndir:** Symudodd Luke i'r Cymoedd yn 2021, gan ei chael hi'n anodd cwrdd â phobl newydd a gwneud ffrindiau. Daeth ar draws y Cynllun Gwarcheidwaid trwy hap a damwain ar ôl taith feicio trwy Barc Gwledig Cwm Dâr pan welodd y Gwarcheidwaid ar waith yn paentio ffensys. Yn fuan wedyn, roedd Luke wedi ymuno â'r cynllun, a roddodd gyfleoedd iddo ennill ystod o sgiliau a phrofiadau. Yn ei dro, fe wnaeth hyn ei alluogi i ddechrau gyrfa yn y caffi ym Mharc Gwledig Cwm Dâr, rhywbeth y mae'n ei fwynhau'n fawr.

**Hoff ran o'r Cynllun:** Cwrdd â phobl newydd, gwneud ffrindiau da a theimlo fel rhan o gymuned.

***"Oni bai am yr amser yr oeddwn wedi'i dreulio yn magu hyder a phrofiad o fewn y grŵp gwirfoddoli, ni fyddwn byth wedi cael y swydd yn y caffi. Diolch am gymryd yr amser i fy helpu a diolch am y cyfeillgarwch."***

## Julie Smith



**Ymunodd â'r Cynllun Gwarcheidwaid:** Ionawr 2022

**Porth Darganfod a fynychwyd:** Parc Gwledig Bryngarw.

**Cefndir:** Ymunodd Julie â Chynllun Gwarcheidwaid Parc Rhanbarthol y Cymoedd ar ôl colli ei swydd oherwydd y pandemig. Ar ôl penderfynu ar newid bywyd yn llwyr, ar ôl gweithio yn y diwydiant lletygarwch, dechreuodd Julie fynychu sesiynau ym Mharc Gwledig Bryngarw fel gwirfoddolwr. Dyma pryd y darganfyddodd ei chariad at weithio yn yr awyr agored. Yn fuan, trodd ei hobi newydd yn yrfa trwy gymhwyster gydag Agored Cymru.

**Hoff ran o'r Cynllun:** Mae Julie yn mwynhau bod o gwmpas pobl o'r un unfryd â diddordeb mewn cadwraeth a'r amgylchedd. Mae Julie wedi gwneud grŵp cwbl newydd o ffrindiau gydol oes drwy'r cynllun – gyda phobl na fyddai hi byth wedi rhyngweithio â nhw fel arall.

***"Argymhellodd ffrind sesiynau'r Cynllun Gwarcheidwaid i fy annog i ryngweithio â phobl eto, gan wneud rhywbeth yr oedd gennyf ddiddordeb gwirioneddol ynddo – treulio amser yn yr awyr agored.***

***Pe na bawn i wedi magu'r hyder hwnnw a threulio amser yn y sesiynau, mae'n debyg na fyddem fyth wedi gadael fy ngyrfa yn y diwydiant lletygarwch. Erbyn hyn, dwi wedi troi hobi yn yrfa ac yn gweithio yn y ganolfan arddio leol. Wnes i erioed feddwl y byddem yn dda iawn yn gwneud hyn, ond mae'n troi allan fy mod i!"***



# **Dewch i gwrdd â rhai o** Swyddogion Prosiect y Gwarcheidwaid

**Mae ein Swyddogion Prosiect gwerthfawr sy'n cyflwyno sesiynau'r Cynllun Gwarcheidwaid – Faye, Ian, Cal, Elin, Peter, Ant a Chris – yn ysbrydoliaeth wirioneddol i wirfoddolwyr y cynllun. Dyma beth oedd gan rai ohonyn nhw i'w ddweud am sesiynau'r Cynllun Gwarcheidwaid y maen nhw wedi helpu i'w cyflwyno…**



## Faye Williams


**Uwch-swyddog Prosiect**



**Cefndir:** Daeth Faye yn Warcheidwad yn 2021 a dechreuodd redeg y sesiynau gwirfoddoli ym Mharc Gwledig Bryngarw – gyda chymorth gwybodaeth a gafwyd wrth gwblhau gradd Meistr mewn Rheoli Cadwraeth Amgylcheddol.

**Hoff ran o'r Cynllun:** Mae Faye wrth ei bodd â'r ymdeimlad o gymuned a grëir yn y sesiynau hyn – pawb yn cydweithio, yn dod o hyd i rôl sy'n addas iddyn nhw fel rhan o bob prosiect, ac yn gweithio i wella'r amgylchedd lleol er mwyn i bawb ei fwynhau.

***"Mae'r gweithgareddau mor bwysig i amgylchedd Cymoedd De Cymru. Gall y rhain fod yn bethau fel cael gwared ar rywogaethau goresgynnol, plannu coed, a chreu coridorau cynefinoedd a bywyd gwyllt – y cyfan yn gamau cadarnhaol tuag at wella bioamrywiaeth."***



## Ian Dennis

**Uwch-swyddog Prosiect**



**Cefndir:** Mae gan Ian dros ugain mlynedd o brofiad yn arwain rhaglenni cadwraeth, cyflogadwyedd ac eco-lythrennedd yn Groundwork ac mae ganddo Dystysgrif Genedlaethol Uwch mewn Rheolaeth Cefn Gwlad a chymhwyster Lefel 5 y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM). Yn ogystal â hyn, ar ôl byw yn y Cymoedd ar hyd ei oes, mae Ian wastad wedi bod wrth ei fodd â Pharc Gwledig Cwm Dâr a bod allan ym myd natur.

**Hoff ran o'r Cynllun:** Mae Ian yn mwynhau gallu chwarae ei ran i gynnal a gwella'r ardal trwy'r Cynllun Gwarcheidwaid.

***"Mae pobl o amrywiaeth o gefndiroedd yn dod i'r sesiynau – o rai 16 oed i rai 70 oed – i dreulio amser yn yr awyr agored a rhoi rhywbeth yn ôl i'w hamgylchedd lleol. Mae gan y gwirfoddolwyr bob amser wên ar eu hwynebau, hyd yn oed pan fydd yn bwrw glaw. A ph'un a ydych chi'n 16 oed neu'n 60 oed, un tîm ydyn ni – i gyd yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein mannau gwyrdd yma i'w mwynhau am flynyddoedd i ddod."***









## Cal James

**Swyddog Prosiect**



**Cefndir:** Yn flaenorol, roedd Cal yn gwirfoddoli yn y sector cadwraeth, a dyna le y darganfyddodd ei gariad at wirfoddoli. Rhoddodd ei brofiadau addysgol - BSc mewn Ecoleg a Meistr mewn Ymarfer Cadwraeth - y sgiliau a gwybodaeth angenrheidiol iddo i'w helpu i gyflwyno'r sesiynau.

**Hoff ran o'r Cynllun:** Mae Cal wir yn gwerthfawrogi'r gwerth o roi yn ôl i'r gymuned trwy bopeth a wneir yn y sesiynau.

***"Oherwydd ei orffennol diwydiannol, dw i'n meddwl bod De Cymru wedi cael ei niweidio'n ecolegol mewn mannau. Mae llawer o'r parciau rydym yn gweithio ynddynt yn enghreifftiau anhygoel o safleoedd a arferai fod yn ddiwydiannol yn cael eu hadfywio ac yn dod yn ardaloedd anhygoel i fywyd gwyllt. Mae bod yn rhan o adfywiad parhaus y lleoedd hyn yn eithaf arbennig."***

# Ac yn olaf ...

Diolch unwaith eto i bob un o’r Gwarcheidwaid sydd wedi cydlynu, rheoli ac arwain sesiynau Cynllun Gwarcheidwaid Parc Rhanbarthol y Cymoedd, a gyflwynwyd gan Groundwork Cymru. Mae eich cyfraniad at greu Cymoedd De Cymru gwyrddach ac iachach yn anfesuradwy. Hoffem hefyd ddiolch i’r Rhaglen Datblygu Gwledig am ei chyllid, sydd wedi gwneud y Cynllun Gwarcheidwaid yn bosibl.